



**STRONGER  
FAIRER  
GREENER**



# Archwilio Mewnol Adroddiad Blynyddol 2022/23

---

Cyngor Caerdydd

## Datganiad Cenhadaeth

Gwella a diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â:

Chris Pyke

Rheolwr Archwilio

Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd

Caerdydd, CF10 4UW

[CPyke@caerdydd.gov.uk](mailto:CPyke@caerdydd.gov.uk)

Ffôn: 029 2087 3455

# Tudalen Gynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
	Cefndir	2
	Y Broses Adrodd Flynyddol	3
	Gofyniad Archwilio Mewnol	3
	Annibyniaeth a Gwrthrychedd	4
<b>2.</b>	<b>Cyd-destun ac Ymagwedd</b>	<b>4</b>
	Cynllun Archwilio, 2022/23	4
	Ymgynghoriaeth Archwilio	5
	Cynllun Archwilio Sicrwydd	5
	Datblygu'r Farn Archwilio	5
<b>3.</b>	<b>Barn ac Adolygiad o'r Amgylchedd Rheoli</b>	<b>6</b>
	Barn 2022/23	6
	Sut mae'r amgylchedd rheoli yn cael ei adolygu	8
<b>4.</b>	<b>Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd</b>	<b>10</b>
	Adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	13
<b>5.</b>	<b>Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella</b>	<b>14</b>
	Gofynion a Sicrwydd	14
	Perfformiad	16
	Meincnodi	17
	Adolygiad Sicrhau Ansawdd	17
	Aseiad Ôl-Archwilio ac Adborth Cwsmeriaid	18
	Argymhellion Archwilio	19
	Adnoddau'r Tîm Archwilio Mewnol	20
	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	21
	Profiad a Chymwysterau	22
<b>6.</b>	<b>Casgliadau</b>	<b>22</b>
	Atodiadau	
	Atodiad A - Allbynnau Archwilio a Gyhoeddwyd	24
	Atodiad B - Meysydd Gwaith lle na pharatoir Allbwn Archwilio	38
	Atodiad C - Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella	29

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

- 1.1 Mae gan y Tîm Archwilio Mewnol rôl bwysig, fel y nodir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC), ac mae wedi'i chynnwys o fewn ei genhadaeth 'I wella a diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg.'
- 1.2 Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am y system rheolaeth fewnol ac am sefydlu polisiau a gweithdrefnau i sicrhau bod y rheolaethau mewnol yn gadarn ac yn gweithio'n gywir er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â risgiau i gyflawni amcanion ar draws y sefydliad a'u lliniaru. Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd ac ymgynghori. Mae'n cwblhau ystod o waith i ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol ar amgylchedd rheoli'r Cyngor (llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth), ac mae'n cynnig cyngor, arweiniad a mewnwelediad beirniadol i reolwyr.
- 1.3 Mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC). Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r SAMSC, mae'r Rheolwr Archwilio yn cynnal Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (RhSAG). Nod y RhSAG yw rhoi hyder i'r rhai sy'n dibynnu ar waith y Tîm Archwilio Mewnol ynghylch y safonau proffesiynol a gymhwysir ac ansawdd y gwasanaethau. Ceir crynodeb o hyn yn Adran 5 o'r adroddiad hwn, lle ceir proses o fonitro parhaus, adolygu cyfnodol, ac asesiad allanol 5 mlynedd yn unol â Safon SAMSC 1300.
- 1.4 Cwblhawyd yr asesiad allanol 5 mlynedd diweddaraf a'i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023, dan arweiniad y Prif Archwilydd yng nghynghorau Sir Fynwy / Dinas Casnewydd, a ddyrannwyd i ymgymryd ag asesiad cymheiriaid o wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Caerdydd. Nid yw'r asesiad wedi nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfiad rhannol neu gyfan gwbl. Cynigiwyd un cam gweithredu dewisol ac fe'i gweithredwyd, yn ymwneud â chyfathrebu cwrpas ac amcanion yr archwiliad ynghyd â'r risg, o fewn allbynnau archwilio.
- 1.5 Yn ystod y flwyddyn, roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol iddo oruchwylio trefniadau archwilio mewnol a chyflawni. Mae adroddiadau perfformiad chwarterol wedi'u darparu i'r Pwyllgor ym mhob cyfarfod drwy gydol y flwyddyn, a chyflwynir yr adroddiad blynyddol hwn i'r Pwyllgor i'w ystyried ac i wneud sylwadau arno.
- 1.6 Mae'r tîm archwilio wedi parhau i ganolbwyntio ar amgylchedd gweithredu'r Cyngor a rhoi sicrwydd yng nghyd-destun pwysau a heriau parhaus. Yn dilyn heriau cychwynnol yn deillio o'r pandemig, a gyflwynodd yr angen am ddsbarthu grantiau'n brydlon, newidiadau i wasanaethau, a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio, mae'r Cyngor wedi bod angen cefnogi

dyfodiad ffoaduriaid Wcrain. Mae cyflwyno systemau a phrosesau newydd yn gofyn am lywodraethu a rheolaeth dda, ac yn unol â hynny, mae archwilio mewnol wedi rhoi cyngor ac arweiniad ar gyfer sicrwydd perthnasol.

1.7 Mae'r galw am wasanaethau yn parhau i fod yn arbennig o uchel ac, ar adeg o bwysau chwyddiant, argyfwng costau byw a chyfyngiadau parhaus ar gyllid cyhoeddus, mae'r angen am reoli cyllid ac adnoddau cyhoeddus yn effeithiol, a sicrwydd annibynnol yn parhau i fod yn hanfodol.

## Y Broses Adrodd Flynyddol

1.8 Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad archwilio yn ystod 2022/23, yn rhoi barn ar ddigonolrwydd yr amgylchedd rheoli yng Nghyngor Caerdydd, ac yn adrodd ar nifer yr achosion o unrhyw wendidau rheoli sylweddol.

1.9 Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys:

(a) Barn y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor;

(b) Crynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn; a

(c) Datganiad ar gydymffurfio â SAMSC a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella.

## Gofyniad Archwilio Mewnol

1.10 Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system rheolaeth fewnol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd hefyd i baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae barn y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor o'r adroddiad hwn wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i randdeiliaid y Cyngor yn seiliedig ar y rhaglen waith Archwilio Mewnol.

1.11 Mae'n rhaid i'r Rheolwr Archwilio (y cyfeirir ato fel Prif Weithredwr Archwilio yn y SAMSC) ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol, wedi'u hamseru i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a dod i gasgliad ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad. Wrth wneud hynny, mae'r Rheolwr Archwilio yn cynnal asesiad o ddigonolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion rheoli a chorfforaethol.

## Annibyniaeth a Gwrthrychedd (Safon SAMSC 1100)

- 1.12 Nid yw'r Rheolwr Archwilio yn rheoli unrhyw swyddogaethau ar wahân i'r Timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Cyflawnwyd annibyniaeth sefydliadol drwy gydol 2022/23. Y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a Swyddog Adran 151 yw'r Uwch Reolwr sy'n goruchwyllo'r Swyddogaeth Archwilio Mewnol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid (Dirprwy Swyddog Adran 151) ac mae ganddo lwybr adrodd uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r holl Aelodau etholedig lle bo angen.
- 1.13 Mae'n ofynnol i Archwilwyr Mewnol gynnal archwiliadau yn unol â darpariaeth y SAMSC ac yn unol â Chodau Moeseg unrhyw gyrrff proffesiynol y maent yn aelodau ohonynt. Caiff pwysigrwydd annibyniaeth ei gyfleu i archwilwyr a chymerir gofal i sicrhau bod yr holl waith archwilio yn cael ei wneud mewn modd annibynnol a gwrthrychol.
- 1.14 Mae'r SAMSC yn mynnu bod unrhyw wrthdaro buddiannau neu amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd yn cael ei ddatgelu. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i bob aelod o'r adran Archwilio Mewnol gwblhau Datganiad Staff (a'i ddiweddarau os bydd amgylchiadau'n newid yn ystod y flwyddyn). Mae hwn yn nodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a allai fod gan unrhyw aelod o'r tîm, a ystyrir wrth aseinio ac ymgymryd ag archwiliadau. Ystyriwyd pob datganiad yn briodol wrth ddyrannu a chynnal gwaith. Nid oedd unrhyw namau ar annibyniaeth na gwrthrychedd yn 2022/23.

## 2. Cyd-destun ac Ymagwedd

### Cynllun Archwilio 2022/23

- 2.1 Cafodd Cynllun Archwilio 2022/23 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Mawrth 2022, ar ôl ystyriaeth a chytundeb gan Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor. Gwnaeth y Cynllun roi fframwaith ar gyfer gwaith archwilio wedi'i alinio â threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, wrth ymateb hefyd i unrhyw newidiadau i'r risgiau a wynebir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Bob blwyddyn mae'r Cynllun yn cael ei fapio i amcanion busnes, a systemau allweddol, wrth gael ei lywio gan asesiadau risg, llywodraethu a sicrwydd.
- 2.2 Yn ystod y flwyddyn hyd yma, blaenoriaethau a dull gweithredu'r tîm archwilio oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a datblygu ymgysylltiadau sicrwydd targedig o'r Cynllun Archwilio.

## Ymgynghoriaeth Archwilio

2.3 Mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn rhoi mewnwelediad ac arweiniad ar feysydd rheoli yn ystod gwaith datblygu / newid prosesau. Mae wedi parhau i roi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol wrth weinyddu cynlluniau grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Ganolog fel y Cynllun Cartrefi i Wcráin, i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

## Cynllun Archwilio Sicrwydd

2.4 Mae'r Cynllun Archwilio yn cynnwys yn bennaf ymgysylltiadau archwilio sicrwydd, a gynlluniwyd i gefnogi barn archwilio flynyddol lawn ar amgylchedd rheoli'r Cyngor. Mae'r Cynllun o faint digonol i alluogi penderfyniadau ar amseriad a blaenoriaethu ymgysylltiadau archwilio wrth i bob blwyddyn fynd yn ei blaen. Bob blwyddyn, mae cyfran o'r Cynllun Archwilio yn cael ei thargedu i'w chyflawni, a'r targed ar gyfer 2022/23 yw 70%.

2.5 Er y caiff ei bennu'n flynyddol, mae'r Cynllun Archwilio'n addasadwy ac yn ymatebol ac yn destun asesiadau risg parhaus, blaenoriaethu ac adolygiadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn gwneud y mwyaf o sicrwydd a chymorth rheolwyr. Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2023, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod 25 archwiliad yn cael eu blaenoriaethu i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Cymerwyd y dull blaenoriaeth, yng nghyd-destun llai o adnoddau staff oherwydd swyddi archwilio gwag, i sicrhau bod holl feysydd sylfaenol y cynllun yn cael eu cyflawni, bod meysydd craidd llywodraethu corfforaethol yn cael eu hadolygu, a bod digon o sylw ar lefel cyfarwyddiaeth er mwyn darparu barn archwilio lawn ar amgylchedd rheoli'r Cyngor. Ochr yn ochr â'r dull targedig hwn, cyflawnwyd pedwar archwiliad drwy gontract o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Rheolwr Archwilio.

2.6 Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd archwilwyr y rhan fwyaf o'u gwaith wrth weithio o bell o gartref a dim ond nifer fach o ymweliadau safle a gynhaliwyd (gyda chymorth asesiadau risg awdurdodedig a phrosesau rheoli), wrth ystyried gofynion busnes.

## Datblygu'r Farn Archwilio

2.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'r Cynllun Archwilio a'r ymagwedd at gyflawni wedi'i ddylunio er mwyn targedu sicrwydd ar risgiau a rheolaethau allweddol, ac er mwyn darparu corff o waith sicrwydd digonol i gefnogi barn flynyddol lawn ar amgylchedd rheoli'r Cyngor. Mae hyn wedi cynnwys pennu ymagwedd wedi'i flaenoriaethu at archwilio systemau sylfaenol a llywodraethu corfforaethol, a datblygu gwasgariad targedig o waith sicrwydd ehangach.

2.8 Cafodd yr holl benderfyniadau parthed y Cynllun eu gwneud gyda sylw priodol at risg, safonau proffesiynol a chynghorion gan CIPFA a'r CIIA, y Bwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol a chynghor swyddogion proffesiynol a chyfoedion.

2.9 Wrth ystyried canllawiau proffesiynol, cwmpas archwilio a risg:

- Rhoddwyd blaenoriaeth i gyflawni'n sylweddol y categorïau 'sylfaenol' a 'llywodraethu corfforaethol' o archwiliadau. Cwblhawyd gwaith ym mhob maes sylfaenol yn y Cynllun Archwilio, a chyflawnwyd y rhan fwyaf o'r archwiliadau Llywodraethu Corfforaethol.
- Ar lefel cyfarwyddiaeth, cwblhawyd gwasgariad archwilio, gan ystyried lefelau sicrwydd cyfredol a phwysigrwydd pob ymgysylltiad archwilio i sicrhau barn flynyddol lawn ar amgylchedd rheoli'r Cyngor.

### 3. Barn ac Adolygiad o'r Amgylchedd Rheoli

#### Barn 2022/23 (Safon SAMSC 2450)

3.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) yn datgan bod 'rhaid i'r Prif Weithredwr Archwilio ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gellir eu defnyddio gan y sefydliad i arwain ei ddatganiad llywodraethu.' Mae'n rhaid i'r rhain fod yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r fframwaith llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg. Hefyd mae'n rhaid iddynt gynnwys arfarniad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau wrth ymateb i risgiau o fewn y systemau llywodraethu, gweithrediadau a gwybodaeth.

3.2 Cafodd y farn hon ei pharatoi gan y Rheolwr Archwilio (Prif Weithredwr Archwilio at ddibenion y SAMSC) yn seiliedig ar ddarpariaethau'r SAMSC. Wrth baratoi a ffurfio'r farn hon, mae nifer o ffynonellau gwybodaeth, sicrwydd a mewnwleidiad wedi'u hystyried, gan gynnwys:

- Ymgysylltiadau Archwilio Sicrwydd – Mae'r cynllun archwilio blynyddol ar sail risg wedi'i gyflawni drwy ddull o sicrhau'r sicrwydd a'r gwerth ychwanegol mwyaf posibl. Mae'r cynllun archwilio yn ymatebol i risg ac wedi'i lywio gan wybodaeth archwilio a chan sicrwydd presennol, gwybodaeth gan Uwch Reolwyr, monitro gweithgarwch y Cyngor, strategaeth, risgiau a ffynonellau sicrwydd ehangach. Ar gyfer pob archwiliad, mae'r risgiau, y pwysau a'r blaenoriaethau presennol yn parhau i lywio cwmpas yr archwiliad a'r profion.
- Ymgysylltiadau Archwilio Ymgynghorwyr - Mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn rhoi mewnwleidiad ac arweiniad ar feysydd rheoli yn ystod gwaith datblygu / newid prosesau. Mae wedi parhau i roi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol wrth weinyddu cynlluniau grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Ganolog fel y Cynllun

Cartrefi i Wcráin, i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

- Trafodaeth gyda'r Uwch Reolwyr – Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolwr perthnasoedd chwarterol gyda Chyfarwyddwyr neu eu cynrychiolwyr, aeth y Rheolwr Archwilio i gyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli lle ystyriwyd eitemau sicrwydd, a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (Swyddog Adran 151) a'r Prif Weithredwr.
- Adolygiadau Risg a Llywodraethu – Mae Cofrestrau Risg a Datganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr sy'n sail i Ddatganiad Llywodraethu Blyneddol y Cyngor yn destun adolygiad archwilio rheolaidd ac ymgysylltiadau archwilio sicrwydd.

3.3 Yn seiliedig ar y rhaglen o waith archwilio a wnaed i asesu'r fframwaith a'r defnydd o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, y farn flynyddol ar gyfer 2022/23 yw **effeithiol gyda lle i wella**. *Mae'r farn hon yn seiliedig ar lunio Cynllun Archwilio digonol, ac ar gydnabyddiaeth o'r pwysau sylweddol ar adnoddau'r Cyngor o ran galw a chyllidebau, a gafodd eu rheoli trwy ddiwylliant perfformio gwydn.*

3.4 Mae'r farn archwilio yn cynnwys asesiadau o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ac mae'n cynnwys gwerthusiad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaethau wrth ymateb i risgiau o fewn y systemau llywodraethu, gweithrediadau a gwybodaeth.

- Mae adolygiadau wedi'u cwblhau ym mhob maes system sylfaenol arfaethedig.
- Yn unol â dull a gyfathrebwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cwblhawyd y rhan fwyaf o ymgysylltiadau archwilio llywodraethu corfforaethol yn ystod y flwyddyn, a ategwyd gan wasgariad o ymgysylltiadau archwilio sicrwydd ar lefel cyfarwyddiaeth.
- Mae trefniadau rheoli risg corfforaethol wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, ac mae adolygiad rheoli risg cyfarwyddiaeth wedi'i gwblhau ac wedi adrodd bod lefel briodol o aeddfedrwydd rheoli risg ar waith ar lefelau cyfarwyddiaeth.
- Mae'r Cyngor wedi parhau i weinyddu cymorth brys, taliadau grant a gwasanaethau cymorth ar ran Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog, ac mae'r Timau Archwilio ac Ymchwilio Mewnol wedi cynghori rheolwyr ar ddyfunio systemau a gwiriadau gwrth-dwyll yn unol â gofynion y cynllun.

3.5 Ystyriwyd bod yr amgylchedd rheoli ar gyfer systemau ariannol craidd yn ddigonol, a dyrannwyd barn 'effeithiol' neu 'effeithiol gyda lle i wella' i'r rhan fwyaf o archwiliadau'n gyffredinol (87%). Rhoddwyd barn archwilio o 'annigonol ac angen gwelliant mawr' i wyth archwiliad, gan gydnabod yr angen am sylw i sicrhau rheolaethau cadarn, a rhoddwyd barn 'anfodhaol' i un archwiliad (mewn perthynas â Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog).



3.6 Mae sicrwydd a chymorth archwilio yn parhau i dargedu a monitro meysydd risg uchel. Rhoddir ffocws ar gwblhau archwiliadau yn amserol gyda chleientiaid archwilio ac i bwysigrwydd gweithredu argymhellion archwilio o fewn yr amserlenni gofynnol.

### Sut mae'r amgylchedd rheoli yn cael ei adolygu

3.7 Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg o gynllunio archwilio, yn unol ag Adran 2010 o'r SAMSC. Defnyddiwyd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor fel sail i'r cynllun archwilio blynyddol ar gyfer 2022/23 ynghyd â ffynonellau sicrwydd o'r tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor i sicrhau bod amser ac adnoddau archwilio addas yn targedu'r meysydd mwy arwyddocaol. Mae'r dull hwn o gynllunio archwilio yn seiliedig ar risg yn dangos risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg ac yn arwain at ystod gynhwysfawr o archwiliadau a gynhelir i gefnogi'r farn gyffredinol ar yr amgylchedd rheoli.

3.8 Ar gyfer 2022/23, defnyddiwyd diffiniadau'r farn sicrwydd archwilio fel yr amlinellir yn y tabl wrth ddyrannu barn archwilio. Roedd y lefelau sicrwydd a'r diffiniadau hyn yn seiliedig ar y rhai a ddatblygwyd gan Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol (CIIA).

*Tabl 1- Barn Sicrwydd Archwilio - Diffiniadau*

Lefel Sicrwydd	Diffiniad
Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r rheolaethau a werthuswyd yn ddigonol ac yn briodol</li> <li>Mae'r amgylchedd rheoli'n ymddangos yn ddigon cadarn i roi sicrwydd rhesymol bod pob perygl lefel uchel yn cael ei reoli'n ddigonol</li> <li>Dim canfyddiadau wedi'u nodi (neu nifer fach o argymhellion risg isel)</li> </ul>
Effeithiol gyda lle i wella	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodwyd ychydig o wendidau rheoli a/neu gyfleoedd i wella</li> <li>Mae'r rheolaethau a werthuswyd fel arall yn ddigonol ac yn briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y risgiau'n cael eu rheoli'n ddigonol</li> </ul>
Annigonol ac angen gwelliant mawr	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw rhai o'r risgiau lefel uchel wedi'u rheoli'n ddigonol</li> <li>Nodwyd llawer o wendidau rheoli penodol</li> <li>Er nad oes bygythiad uniongyrchol i gadernid a diogelwch, mae angen gwella'r amgylchedd rheoli gan nad yw'n rhoi sicrwydd rhesymol bod yr holl risgiau lefel uchel yn cael eu rheoli'n ddigonol</li> <li>Efallai bod risg o dwyll neu wendidau diogelwch</li> </ul>
Anfoddhaol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw'r amgylchedd rheoli'n ddigonol nac o safon dda</li> <li>Ystyrir nad yw'r amgylchedd rheoli'n gadarn</li> <li>Gallai diffyg sylw arwain at golledion sylweddol</li> </ul>

3.9 Mae'r tabl isod yn nodi'r sgoriau Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG) a roddir ar gyfer argymhellion a gwybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir wrth ddyrannu'r sgôr risg.

Tabl 2 - Sgoriau Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG) - Meini prawf

Sgôr	Meini Prawf
Coch	<p>Mae hwn yn fater â blaenoriaeth uchel ac mae angen sylw brys. Mae hwn yn fater rheoli mewdol neu reoli risg difrifol, ac os nad yw'n cael ei lleddfu gallai (yn eithaf sicr) arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Golledion sylweddol, o bosibl ar y cyd â gwendidau eraill yn y fframwaith rheoli neu'r endid sefydliadol neu'r broses sy'n cael ei harchwilio</li> <li>• Mynd yn groes i strategaethau, polisiâu neu werthoedd y Cyngor</li> <li>• Niwed difrifol o ran enw da</li> <li>• Effaith andwyol neu reolaethol sylweddol, megis colli trwyddedau gweithredu neu ddirwyon materol</li> </ul> <p>Dyma enghreifftiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oes polisi / gweithdrefn yn bodoli ar gyfer prosesau sylweddol y Cyngor</li> <li>• Nid oes rheolaethau ataliol, darganfod na lleddfu ar waith</li> <li>• Mae enw da'r Cyngor neu statws ariannol mewn perygl</li> <li>• Twyll neu ddwyn wedi'i ddarganfod</li> <li>• Nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau</li> </ul>
Coch / Melyn	<p>Mae hwn yn fater â blaenoriaeth ganolig ac mae camau rheoli amserol yn angenrheidiol. Mae hwn yn fater rheoli mewdol neu reoli risg a allai arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Golledion ariannol</li> <li>• Colli rheolaethau o fewn yr endid sefydliadol neu'r broses sy'n cael ei harchwilio</li> <li>• Niwed i enw da</li> <li>• Effaith andwyol reoleiddiol, megis sancsiynau cyhoeddus neu ddirwyon anfaterol</li> </ul> <p>Dyma enghreifftiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae polisi'n bodoli ond nid yw'n cael ei weithredu'n gyson</li> <li>• Nid oes rheolaethau ataliol a darganfod yn bodoli, ond mae rheolaethau lleddfu'n bresennol</li> <li>• Mae cydymffurfiaeth y Cyngor â deddfau a rheoliadau'n gofyn am werthuso ac adolygu ychwanegol</li> <li>• Mae posibilrwydd o weithgareddau amhriodol</li> </ul>
Melyn / Gwyrdd	<p>Mae hwn yn fater â blaenoriaeth isel ac mae sylw rheolaeth arferol yn deilwng. Mae hwn yn fater rheoli mewdol neu reoli risg, byddai'r datrysiad o bosibl yn arwain at welliant yn ansawdd a/neu effeithlonrwydd y sefydliad neu'r broses sy'n cael ei harchwilio.</p> <p>Dyma enghreifftiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae polisi'n bodoli, ond ni lynwyd ato ar sail eithriadau</li> <li>• Nid yw rheolaethau ataliol yn bodoli, ond mae rheolaethau darganfod a lleddfu'n bodoli</li> <li>• Mae mân bosibilrwydd o weithgareddau amhriodol</li> </ul>
Gwyrdd	Arfer gorau

- 3.10 Mae archwiliadau'n parhau i amlygu gwendidau'r system mewn rhai meysydd a/neu faterion cydymffurfio sy'n nodi cyfleoedd pellach i wella rheolaeth. Dros nifer o flynyddoedd, mae'r Cyngor wedi colli nifer sylweddol o swyddogion sydd â phrofiad a gwybodaeth, gan arwain at newidiadau i brosesau a rolau i amsugno'r effaith. Mae'r pwysau i newid gwasanaethau oherwydd adnoddau ariannol cyfyngedig yn dod â heriau a risgiau newydd y mae angen eu rheoli.
- 3.11 Caiff y dull Archwilio Mewnol ei lywio gan y risg hon, a rhoddir blaenoriaeth gynhenid i roi sicrwydd ar systemau ariannol craidd a meysydd llywodraethu cyn archwiliadau mwy lleol sy'n benodol i wasanaethau. Mae'r archwiliadau gwirioneddol a ddyrannwyd yn seiliedig ar gymhwyso proses gynllunio sy'n seiliedig ar risg, wedi'i llywio gan ffynonellau gwybodaeth a sicrwydd ehangach.
- 3.12 Parhaodd y cynllun archwilio yn 2022/23 â dull o ddyrannu adnoddau i themâu sicrwydd archwilio ar draws y Cyngor a chafodd archwiliadau Rheoli Perfformiad Cyfarwyddiaeth eu cynnwys yn y Cynllun Archwilio. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd un archwiliad rheoli perfformiad cyfarwyddiaeth wedi dod i ben ac roedd archwiliadau ym mhob cyfarwyddiaeth arall yn dechrau. Bydd y canfyddiadau'n arwain at argymhellion ar lefel cyfarwyddiaeth, ac yn gyfle i fyfyrto a oes unrhyw le i wella ymhellach ar y lefel gorfforaethol.

## 4. Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd

- 4.1 Mae gwaith Archwilio Mewnol, fel y'i diffinnir yn y SAMSC, yn cwmpasu'r system rheolaeth fewnol gyfan ac nid yw wedi'i gyfyngu i reolaethau ariannol. Fe'i diffinnir fel helpu '*... sefydliad i gyflawni ei amcanion drwy ddod â dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu.*' Amlinellir natur y gwasanaethau archwilio yn y Strategaeth Archwilio a'r Siarter Archwilio. Mae'r Cynllun Archwilio yn dogfennu rhestr ymgysylltiadau archwilio arfaethedig bob blwyddyn.
- Cymeradwywyd y Siarter Archwilio a Chynllun Archwilio 2022/23 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Mawrth 2022, ac ar yr adeg hon ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio hefyd.
  - I egluro ymhellach y meysydd blaenoriaeth ar gyfer ffocws archwilio eleni, yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2023, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod 25 archwiliad yn cael eu blaenoriaethu i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Cymerwyd yr ymagwedd blaenoriaethu, i sicrhau sylw archwilio digonol er mwyn rhoi barn archwilio lawn ar amgylchedd rheoli'r Cyngor.

4.2 Mae rhestr o'r ymgysylltiadau archwilio a gyflwynwyd yn 2022/23 ynghlwm yn **Atodiad A**, lle cwblhawyd 55 o ymgysylltiadau archwilio newydd i o leiaf y cam allbwn drafft yn erbyn cynllun gwreiddiol o 105 o archwiliadau (52%), a chwblhawyd 23 o allbynnau drafft pellach o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Cynllun Archwilio yn ymateb i risg ac, yn unol â hynny, cafodd rhai archwiliadau eu blaenoriaethu neu eu gohirio yn ystod y flwyddyn ariannol, gan ymgysylltu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae gwybodaeth am archwiliadau a ohiriwyd wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

4.3 Dangosir yr archwiliadau a gwblhawyd yn 2022/23 a'r lefelau sicrwydd a roddir yn y tabl isod:

*Tabl 3 - Archwiliadau a gwblhawyd yn 2022/23 a'r lefelau sicrwydd a roddwyd*

Statws	Nifer yr allbynnau archwilio	Barn				
		Effeithiol	Effeithiol gyda lle i wella	Annigonol ac angen gwelliant mawr	Anfoddhaol	Ni roddwyd barn
Drafft	30	4	23	2	1	0
Terfynol	48	7	26	6	0	9
CYFA NSWM	78	11	49	8	1	9
	55	Ymgysylltiadau Archwilio Newydd a Gwblhawyd				
	23	Ymgysylltiadau Archwilio a Orffennwyd o 2021/22				

4.4 Yn gyffredinol, bydd ymgysylltiadau archwilio sicrwydd yn arwain at farn archwilio, ond ni fydd gwaith archwilio o natur ymgynghori neu gynghori fel arfer yn pennu sgôr sicrwydd. Mae'r rhestr o ymgysylltiadau archwilio sicrwydd ac ymgynghori a gwblhawyd wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

4.5 Dylid nodi, mewn perthynas ag archwiliadau arddull HRhR, na ddarperir barn archwilio ar y pwynt cwblhau gan y gyfarwyddiaeth. Mae'r farn archwilio yn cael ei darparu pan fydd digon o brofion yn ystod y flwyddyn wedi'u cwblhau sy'n dilyn yr HRhR, cyngor ac arweiniad gwreiddiol i reolwyr.

4.6 Adroddir yn chwarterol am fanylion yr holl archwiliadau a barn archwilio, ynghyd â thasgau eraill a gyflawnir a dangosyddion perfformiad allweddol, i'r Prif Weithredwr a Swyddog Adran 151 ac ym mhob cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4.7 Mae'r tabl isod yn dangos yr archwiliadau a gwblhawyd yn 2022/23, a ddadansoddwyd dros y gwahanol feysydd archwilio.

*Tabl 4 - Archwiliadau a gwblhawyd yn 2022/23 wedi'u dadansoddi dros y gwahanol feysydd archwilio*

Maes Archwilio	Effeithiol	Effeithiol gyda lle i wella	Annigonol (angen gwelliant mawr)	Anfoddhaol	Ni roddwyd barn	CYFANSWM
Sylfaenol	4	6			2	12
Llywodraethu Corfforaethol	1	21	4		2	28
Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau	2	1				3
Gwasanaethau Plant			2			2
Datblygu Economaidd	1	7				8
Addysg a Dysgu Gydol Oes	1	8				9
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol						0
Pobl a Chymunedau	1	1				2
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd		1	2			3
Adnoddau	1	3		1		5
Grantiau / Cyfrifon / Cyrff Allanol		1			5	6
<b>CYFANSYMAU</b>	<b>11</b>	<b>49</b>	<b>8</b>	<b>1</b>	<b>9</b>	<b>78</b>

4.8 Gellir gweld yn Atodiad A fod nifer o archwiliadau wedi cael barn archwilio o "annigonol ac angen gwelliant mawr" gan gydnabod yr angen am sylw i gyflawni rheolaethau cadarn. Cafodd un archwiliad o'r Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog farn "anfoddhaol". Mae pob archwiliad anfoddhaol yn destun archwiliad dilynol a thargedau sicrwydd archwilio a chymorth ac yn dilyn y meysydd risg uchaf.

4.9 Dylid cydnabod nad yw'r holl waith a wneir gan y tîm Archwilio yn arwain at adroddiad archwilio na chynllun gweithredu. Mae gwaith yn cael ei wneud mewn meysydd sy'n rhoi sicrwydd ar reoli risg a rheolaeth fewnol, gan gynnwys cyngor ac arweiniad (ar faterion cyfredol ac ar ddatblygu systemau) a dehongli Rheoliadau'r Cyngor. Mae **Atodiad B** yn darparu rhestr o feysydd gwaith lle nad allbwn archwilio safonol yw'r canlyniad o bosibl.

4.10 Un o elfennau allweddol y rôl Archwilio Mewnol o hyd yw gweithio gyda chleientiaid lle mae systemau a phrosesau'n cael eu hailgynllunio a'u hailffurfweddu fel a nodir yn adran 2 yr adroddiad hwn. Yma, rôl yr archwilydd yw rhoi cyngor ac arweiniad i'r rheolwyr i'w cefnogi i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer nodi a lliniaru risgiau yn briodol ac ar gyfer gweithredu rheolaethau effeithiol.

### Adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

4.11 Un o swyddogaethau pwysig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn 2022/23 yw goruchwyllo rôl a pherfformiad tîm Archwilio Mewnol y Cyngor. Yn ogystal, mae wedi bod yn ofynnol i Archwilio Mewnol hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am ddigonolrwydd systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol y Cyngor. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r wybodaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chael gan Archwilio Mewnol yn ystod 2022/23.

*Tabl 5 - Crynodeb o'r wybodaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chael gan Archwilio Mewnol yn ystod 2022/23.*

Adroddiad	Diben
Adroddiadau diweddarau Archwilio Mewnol	Rhodddwyd crynodebau chwarterol o berfformiad Archwilio Mewnol, y gwaith archwilio a drefnwyd ac a gwblhawyd, a'r canfyddiadau critigol a'r tueddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn 2022/23. Mae hyn yn cefnogi'r Pwyllgor yn ei rôl wrth oruchwyllo gwaith a pherfformiad archwilio, a digonolrwydd llywodraethu'r cyngor, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
Cynllun Archwilio Blynyddol, Siarter a Strategaeth 2023/24.	Ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio a chymeradwyodd Gynllun Archwilio Blynyddol 2022/23 a'r Siarter ym mis Mawrth 2023. Caiff y rhain eu hystyried a'u cymeradwyo bob blwyddyn ym mis Mawrth, a hynny cyn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
Adroddiadau Blynyddol 2021/22	Darparwyd Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol y llynedd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2022, gan roi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol a barn y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2021/22. Darparwyd Adroddiad Blynyddol Gwrth-dwyll 2021/22 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er ymwybyddiaeth ac ystyriaeth ym mis Medi 2022.
Asesiad Ansawdd Allanol - SAMSC	Cafodd yr asesiad allanol 5 mlynedd diweddaraf ei arwain gan y Prif Archwilydd yng nghynghorau Sir Fynwy / Casnewydd a'i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023. Nid yw'r asesiad wedi nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfriad rhannol neu gyfan gwbl.

## 5. Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella

### Gofynion a Sicrwydd (Safon SAMSC 1300)

5.1 Mae Archwilio Mewnol wedi ymrwymo i weithio yn unol â'r safonau proffesiynol uchaf, ac i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n ychwanegu gwerth ar gyfer uwch reolwyr. Mae'r Rheolwr Archwilio yn cynnal Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (RhSAG), sydd wedi'i chynllunio i gyflawni perfformiad proffesiynol uchel sy'n gweithredu yn unol â SAMSC a'r Cod Moeseg. Crynhoir y RhSAG yn **Atodiad C**, ac fe'i cynhwysir yn y Siarter Archwilio Mewnol.

5.2 Mae'r RhSAG a ddatblygwyd ar gyfer Tîm Archwilio Mewnol Cyngor Caerdydd yn seiliedig ar ddull rheoli perfformiad o ddarparu gwasanaethau archwilio 'sy'n canolbwyntio ar allbwn – a reolir gan ansawdd'. Mae'r dull gweithredu yng Nghaerdydd wedi'i gynnwys mewn casgliad o astudiaethau achos arfer da CIPFA. [Arwain archwiliad mewnol yn y sector cyhoeddus – egwyddorion ar waith, 2019](#)

5.3 Mae'r SAMSC yn rhoi'r amlinelliad canlynol o'r RhSAG:

'Mae rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella wedi'i chynllunio i alluogi gwerthusiad o gydymffurfiaeth y gweithgarwch archwilio mewnol â'r **Safonau** a gwerthusiad ynghylch p'un a yw archwilwyr mewnol yn cymhwyso'r **Cod Moeseg**. Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgarwch archwilio mewnol ac yn nodi cyfleoedd i wella.'

5.4 Mae'n rhaid i'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella cynnwys asesiadau mewnol ac allanol, y gofynion, a'r prosesau adolygu a gymhwysir a gofnodir isod.

*Tabl 6 - Asesiadau mewnol ac allanol, gofynion, a'r broses adolygu a gymhwyswyd*

	Gofynion	Y Broses Adolygu a Chydymffurfiaeth
ASESIADAU ALLANOL	Cynhelir Asesiadau Allanol o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan asesydd cymwys, annibynnol neu gan dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad.	Cafodd yr asesiad allanol 5 mlynedd diweddaraf ei arwain gan y Prif Archwilydd yng nghynghorau Sir Fynwy / Casnewydd a'i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023. Nid yw'r asesiad wedi nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfiaid rhannol neu gyfan gwbl.



Gofynion		Y Broses Adolygu a Chydymffurfiaeth
ASESIADAU MEWNOL	Monitro perfformiad y gweithgarwch archwilio mewnol yn barhaus.	<p>Mae pob archwilydd yn cael adolygiadau monitro, canol archwiliad a sicrwydd ansawdd misol, er mwyn sicrhau bod pob archwiliad yn gyflawn, o safon broffesiynol uchel, ac yn cael ei gyflwyno yn unol â'r SAMSC a'r Cod Moeseg.</p> <p>Caiff amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad ei adroddir a'i fonitro ar sail cerdyn sgorio cytbwys fel yr amlinellir yn Atodiad C.</p> <p>Mae'r Rheolwr Archwilio yn ystyried ac yn adrodd ar y wybodaeth am berfformiad sy'n rhan o'r RhSAG ym mhob Adroddiad Cynnydd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y byddai unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn cael ei adrodd trwyddo.</p> <p>Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Rheolwr Archwilio wedi ystyried cyngorion a chanllawiau ymarfer mewn perthynas â chyflawni cyfrifoldebau ac adroddiadau proffesiynol gan yr IASAB, y CIIA a CIPFA.</p>
ASESIADAU MEWNOL	Hunanasesiadau neu asesiadau cyfnodol gan bersonau eraill o fewn y sefydliad sydd â digon o wybodaeth am arferion archwilio mewnol.	<p>Yn flynyddol, mae'r Rheolwr Archwilio yn ystyried perfformiad y RhSAG ar gyfer y flwyddyn gyfan, gan fyfyrion ar wybodaeth ac allbynnau'r fframwaith sicrwydd parhaus, a thrwy'r gweithgareddau blynyddol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau hunanasesiad yn erbyn y Nodyn Cais Llywodraeth Leol</li> <li>• Adolygu perfformiad yn erbyn Datganiad CIPFA ar 'Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol'</li> <li>• Adolygu canlyniadau'r ymarfer asesu sgiliau a gwblhawyd gan holl aelodau'r Tîm Archwilio Mewnol, wrth gymhwyso Fframwaith Cymwyseddau CIIA.</li> <li>• Adolygu'r Adolygiadau Personol blynyddol ar gyfer holl aelodau'r Tîm Archwilio Mewnol.</li> </ul> <p><i>Mae'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifydd cymwysedig ac yn aelod siartredig o'r Sefydliad Archwilwyr Mewnol.</i></p>

5.5 Drwy gymhwyso'r RhSAG, gellir rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth barhaus â'r SAMSC a chymhwyso'r Cod Moeseg.



## Perfformiad

5.6 Cynhelir cronfa ddata rheoli cynllunio archwilio er mwyn monitro'n effeithiol y gwaith a wneir yn unol â'r hyn a gynlluniwyd. Defnyddir y gronfa ddata i ddyrannu ymgysylltiadau, cofnodi gwaith wedi'i gwblhau a darparu gwybodaeth allweddol am berfformiad i reolwyr. Mae'n ofynnol i archwilwyr gwblhau taflenni amser i gofnodi'r gwaith a wneir, fel y gall rheolwyr asesu cynhyrchiant a chynnydd yn erbyn y Cynllun yn barhaus.

5.7 Adroddir ar berfformiad y flwyddyn i'r Tîm Rheoli Cyllid gan y Rheolwr Archwilio a'i drafod gyda'r tîm archwilio. Mae'r canlyniadau chwarterol ar gyfer 2022/23 yn y tabl isod:

*Tabl 7 - Perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer 2022/23*

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad 2021/22	Targed 2022/23	Canlyniad Ch1	Canlyniad Ch2	Canlyniad Ch3	Canlyniad Ch4
Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd	61%	70%	13%	25%	29%	52%
Nifer gyfartalog y diwrnodau archwilio cynhyrchiol fesul CALI	147	150	37	68	103	144
Nifer gyfartalog yr archwiliadau wedi'u cwblhau fesul CALI	7.4	9	1.43	3.13	4.82	6.64
Canran yr allbynnau archwilio drafft a gyflawnwyd o fewn pedair wythnos	92%	90%	80%	84%	87%	91%
Canran yr argymhellion archwilio a roddwyd ar waith o fewn yr amserlen y cytunwyd arni	68%	80%	56%	71%	65%	67%

5.8 Er bod mesurau o ddiwrnodau archwilio cynhyrchiol a'r amserlen ar gyfer cynhyrchu allbynnau drafft yn unol â'r targed yn fras, roedd canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd (ar 52%) a nifer yr archwiliadau terfynol fesul CALI (ar 6.64) yn is na'r bwriad. Dros y flwyddyn mae'r Tîm wedi wynebu llai o gapasiti sydd wedi effeithio ar gyflawni'r Cynllun Archwilio, yn bennaf oherwydd swyddi gwag. Yng nghyd-destun llai o adnoddau staff, ystyrir bod canlyniad effeithiol wedi'i gyflawni o ran darparu archwiliadau, cwmpas a ffocws. Ceir gwybodaeth am y sylw a'r ffocws yn adran 2 o'r adroddiad hwn, 'cyd-destun ac ymagwedd'.

5.9 O ran canran yr argymhellion archwilio a weithredwyd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni, mae perfformiad cyfarwyddiaethau yn parhau i fod yn sylweddol is na'r targed a bennwyd, ac mae gwelliannau hefyd yn cael eu targedu wrth gwblhau archwiliadau'n brydlon. Yn ystod y flwyddyn, mynychodd y Rheolwr Archwilio gyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli i ddarparu

dadansoddiad perthnasol, i drafod perfformiad, ac i bwysleisio pwysigrwydd sylw parhaus gan reolwyr yn y meysydd hyn.

- 5.10 Un o gryfderau'r broses tracio argymhellion yw nad yw argymhellion risg uwch ('coch' a 'choch/melyn') yn cael eu cau heb dystiolaeth o gwblhau boddhaol ac, yn unol â hynny, ni chydabyddir bod cyfran o'r argymhellion wedi'u cwblhau nes bod y wybodaeth hon wedi dod i law.
- 5.11 Darparwyd y traciwr argymhellion llawn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarterol yn ystod 2022/23, a bu'n ofynnol i gyfarwyddwyr roi cyfrif o'u cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion archwilio yn eu hadroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar eu hamgylcheddau rheolaeth fewnol priodol. Bydd yr ymateb i archwiliadau ac argymhellion yn parhau i fod yn ffocws amlwg wrth symud ymlaen.

## Meincnodi

- 5.12 Mae'r tîm Archwilio Mewnol yn aelod o'r grwpiau meincnodi Prif Archwilwyr Cymru a Dinasoedd Craidd y cymerwyd rhan ym mhob ymarfer trwyddynt.
- 5.13 Mae ymarfer meincnodi yn cael ei gynnal ar yr adeg adrodd gyda Grŵp Prif Archwilwyr Cymru, ac ar ôl eu derbyn bydd y canlyniadau'n cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth ac i'w hadolygu.
- 5.14 Crëwyd gweithgor meincnodi Dinasoedd Craidd i drafod gwahanol elfennau o fesur a rheoli perfformiad, ac i ystyried y dulliau mwyaf priodol a buddiol o gymharu perfformiad. Bydd manylion meincnodi priodol yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pan fydd ymarfer meincnodi yn cael ei gwblhau.

## Adolygiad Sicrwydd Ansawdd

- 5.15 Mae pob archwiliad yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd gan uwch aelod o'r tîm i sicrhau bod y ffocws ar risgiau allweddol yn cael ei gadw drwy gydol yr ymgysylltiad archwilio, bod amcanion yr ymgysylltiad archwilio wedi'u cyflawni'n llawn, a bod yr archwiliad wedi'i gyflawni yn unol â'r SAMSC a'r Cod Moeseg. Cyfeirir unrhyw adroddiad sydd â sgôr sicrwydd drafft o "anfodddhaol" neu "annigonol - angen gwelliant mawr", neu unrhyw un sydd â chanfyddiad arwyddocaol, at y Rheolwr Archwilio. Bydd y Rheolwr Archwilio'n adolygu'r holl adroddiadau

gyda'r sgoriau sicrwydd drafft uchod, a bydd yn ymgynghori â'r Tîm Rheoli Archwilio fel y bo'n briodol ar y farn archwilio a'r argymhellion gwella â blaenoriaeth.

5.16 Yn dilyn cyhoeddi allbwn archwilio drafft, cynhelir cyfarfod gyda'r Rheolwr Cleientiaid gyda chyfle iddo ystyried canfyddiadau'r archwiliad, y camau gweithredu arfaethedig a argymhellir, y proffil risg a'r ymateb dangosol sydd i'w wneud gan y gwasanaeth. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod y sefyllfa derfynol a gofnodwyd yn gywir a bod unrhyw argymhellion yn cael eu deall.

### Asesiad ÔI-Archwilio ac Adborth Cwsmeriaid

5.17 Cyflawnir 'Asesiad ÔI-Archwilio' fel rhan o ymrwymiad parhaus i ansawdd, drwy fyfyrion ar berfformiad yr archwilydd ar ddiwedd pob archwiliad. Mae'r Asesiad ÔI-Archwilio yn nodi'r cymwyseddau craidd sydd eu hangen wrth gynnal archwiliad ac mae'n rhaid i'r archwilydd ar gyfer pob aseiniad sgorio ei berfformiad yn erbyn pob un o'r cymwyseddau hyn. Mae'r asesiad yn ddefnyddiol o ran rhoi sicrwydd bod tystiolaeth o gymwyseddau allweddol drwy gydol y broses archwilio ac fel ffordd o nodi anghenion hyfforddi. Mae dadansoddi'r asesiadau yn helpu i ganolbwyntio adolygiadau personol unigol ac yn rhoi trosolwg o berfformiad ar y gwahanol raddau i reolwyr archwilio.

5.18 Yn dilyn pob archwiliad, cysylltir â Rheolwyr Cleientiaid a gofynnir iddynt lenwi Holiadur Sicrwydd Ansawdd, gan gydnabod y gwerth a roddir ar yr adborth y maent yn ei ddarparu. Mae'r cwestiynau hyn yn cwmpasu pedwar categori, a defnyddir y canlyniadau i bennu meysydd i'w gwella.

5.19 Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd 31 o ymatebion o'r holiaduron a gyhoeddwyd. Ceir crynodeb o ganlyniadau'r holiaduron yn y tabl isod:

*Tabl 8 - Crynodeb o'r holiaduron*

	Ardderchog	Da	Boddhaol	Gwael	CYFANSWM
Cyfathrebu	17	11	3	0	31
Cyngor Archwilydd	13	12	6	0	31
Adroddiad	11	14	6	0	31
Perfformiad	17	10	4	0	31
<b>CYFANSYMIAU</b>	<b>58</b>	<b>47</b>	<b>19</b>	<b>0</b>	<b>124</b>

5.20 Gellir gweld bod yr adborth o'r holiaduron archwilio yn gadarnhaol, gyda boddhad 100%, sy'n galonogol wrth i natur a chymhlethdod yr aseiniadau barhau i newid. Mae'r canfyddiad o

broffesiynoldeb a gwrthrychedd y tîm Archwilio Mewnol ymysg cleientiaid archwilio yn parhau i fod yn uchel.

5.21 Mae'r holiaduron hefyd yn gofyn i Reolwyr nodi a ydynt o'r farn bod gwerth ychwanegol i'r broses archwilio ac roedd 87% o'r ymatebwyr o'r farn bod yna. Diffinnir "gwerth ychwanegol" ar gyfer rheolwyr fel a ganlyn: a oedd yr archwiliad yn cynnig ffyrdd o wella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli, ac yn rhoi sicrwydd perthnasol? Gellir gweld bod y rhan fwyaf o gleientiaid yr archwiliad yn teimlo bod yr archwiliadau a gynhaliwyd yn adeiladol ac yn ychwanegu gwerth.

### Argymhellion Archwilio

5.22 Mae'r graddau y cytunir ar argymhellion archwilio gan uwch reolwyr yn cael ei ddefnyddio fel mesur o berfformiad yr archwilydd gan fod lefel uchel yn awgrymu dealltwriaeth o'r risgiau a'r rheolaethau yn y maes dan sylw ac yn ychwanegu gwerth drwy gynnig newidiadau ystyrlon a newidiadau cost-effeithiol.

5.23 Rhoddir sgôr risg i'r argymhellion a godir mewn adroddiadau archwilio yn unol â'r sgoriau risg yn strategaeth risg gorfforaethol y Cyngor (h.y. coch, coch/melyn, melyn/gwyrdd a gwyrdd) ac fel y nodir mewn paragraffau blaenorol. Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a godwyd yn ôl y lefel sicrwydd a roddwyd:

*Tabl 9 - Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a godwyd yn ôl y lefel sicrwydd a roddwyd*

Sgôr Risg	Argymhellion 2022/23			Argymhellion	
	a Wnaed	Cytunwyd	Yn cael ei ystyried	Cytunwyd a gweithredwyd yn 2022/23	Gweithredwyd yn gyffredinol yn 2022/23
Coch	4	0	4	0	8
Coch / melyn	147	58	89	26	150
Melyn / gwyrdd	245	110	135	57	172
Gwyrdd	24	8	16	3	14
<b>CYFANSWM</b>	<b>420</b>	<b>176</b>	<b>244</b>	<b>86</b>	<b>344</b>

5.24 Er pa mor bwysig yw hi i reolwyr gytuno ar argymhellion archwilio, dim ond os caiff yr argymhellion eu gweithredu y bydd newid yn digwydd ac felly caiff adroddiadau archwilio eu monitro hyd nes y bydd yr holl gamau gweithredu wedi'u cau. O'r 420 o argymhellion a godwyd yn ystod y flwyddyn, roedd 86 wedi eu gweithredu erbyn diwedd y flwyddyn.

5.25 Mae angen gwella lefel yr argymhellion a weithredir ar amser (66%). Wrth i argymhellion archwilio gael eu cytuno'n gyson, ystyrir bod rheolwyr yn croesawu mewnwelediad ar sut y gellir gwella llywodraethu neu reolaethau, a chytunir yn gyffredin ar gamau gweithredu arfaethedig.

5.26 Caiff cronfa ddata'r argymhellion ar SharePoint ei dadansoddi'n rheolaidd a chyflwynir manylion yr holl argymhellion a godwyd (a'u statws) i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Fel ar ddiwedd mis Mawrth 2023, dangosir crynodeb o'r argymhellion y cytunwyd arnynt a'r camau gweithredu isod:

Tabl 10 - Crynodeb o'r Argymhellion y cytunwyd arnynt a'u gweithredu

Maes	Argymhellion Cwblhawyd	Gweithredwyd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni	Canran Gweithredwyd o fewn yr amser y cytunwyd arno
Ysgolion	114	56	49%
Dim ysgolion	230	172	75%
CYFANSWM	344	228	66%

### Adnoddau'r Tîm Archwilio Mewnol

5.27 Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd gan y tîm Archwilio Mewnol 8 aelod o staff (7.2 cyfwerth ag amser llawn) a oruchwyliwyd gan y Rheolwr Archwilio, fel y dangosir yn y tabl isod. Roedd dwy swydd Uwch Archwilydd yn cael eu hysbysebu ar ddiwedd y flwyddyn wrth iddynt ddod ar gael trwy un aelod o'r tîm yn sicrhau dyrchafiad i swydd Prif Archwilydd, ac un arall yn dod o hyd i gyfle dyrchafiad gyda thîm arall yn y Cyngor.

Tabl 11 - Adnoddau'r Tîm Archwilio Mewnol

Swydd	Nifer	Cyfwerth ag amser llawn
Rheolwr Archwilio	1	0.70 (0.3 Ymchwiliadau)
Archwilydd Grŵp	1	1.0 (wedi'i ostwng i 0.7 cyfwerth ag amser llawn o 1 Ebrill 2023)
Prif Archwilydd	2	1.6
Uwch Archwilydd	2 (gwag)	2 (gwag)
Archwilydd	4	3.6
Cynorthwy-ydd Archwilio	1	1.0
CYFANSWM	8	7.2 (8.9 o 1 Ebrill 2023)

5.28 Cafodd strwythur y tîm archwilio ei addasu yn ystod y flwyddyn, gyda hyn yn cael ei gyfleu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Tachwedd 2022. Roedd hyn yn cynnwys penderfyniad i fuddsoddi mewn swydd Prif Archwilydd ychwanegol, gwella craidd cadarn o uwch swyddogion o fewn y tîm ac i beidio â llenwi swyddi gwag ar raddau is. Cafodd y swydd Prif Archwilydd ychwanegol hon ei llenwi cyn diwedd y flwyddyn ariannol, ar sail 0.6 cyfwerth ag amser llawn. Mae cais ymddeol hyblyg wedi'i gymeradwyo ar gyfer yr Archwilydd Grŵp lle bydd ei oriau'n lleihau 10 awr yr wythnos (o 37 i 27) o 1 Ebrill 2023.

5.29 Mae yna ffactorau sydd wedi effeithio ar argaeledd staff yn ystod y flwyddyn, a darperir rhagor o wybodaeth yn adran 'perfformiad' yr adroddiad hwn.

5.30 Nodir y gyllideb gwariant reoladwy ar gyfer yr adran ar gyfer 2022/23 yn y tabl isod:

*Tabl 12 - Y gyllideb gwariant y gellid ei reoli ar gyfer yr is-adran ar gyfer 2022/23*

		Cyllideb £(000)	Gwirioneddol £(000)
Cyflogeion	Cyflogeion (cyfanswm cost)	630	548
	Cydran Archwilio Yn cynnwys cost Rheolwr Archwilio 0.7 cyfwerth ag amser llawn	494	409
	Elfen Tîm Ymchwiliadau Yn cynnwys cost Rheolwr Archwilio 0.3 cyfwerth ag amser llawn	136	139
Arall	Trafnidiaeth	3	0
	Cyflenwadau a gwasanaethau	9	58
	Gwasanaethau Cymorth / cyfraniadau eraill (Rheoladwy)	52	50
	<b>GWARIANT RHEOLADWY GROS</b>	<b>558</b>	<b>517</b>

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus (Safon SAMSC 1230)

5.31 Mae gan staff Archwilio Mewnol gyfrifoldeb personol i gynnal a datblygu eu cymwyseddau, fel bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gynnal archwiliadau i safon uchel. Roedd y cynllun archwilio ar gyfer 2022/23 yn cynnwys cyllideb o 39 diwrnod ar gyfer hyfforddiant. Anogir staff i ddiweddarau eu sgiliau, megis drwy fynychu cyrsiau perthnasol a ddarperir gan grŵp Prif Archwilydd Mewnol De Cymru (er na chynhaliwyd y rhain yn ystod y flwyddyn oherwydd y pandemig) a chysiau CIPFA neu CIIA addas pan fydd cyfyngiadau cyllidebol yn caniatáu hynny. Gwneir trefniadau hefyd ar gyfer hyfforddiant mewnol, i ddiweddarau ac adnewyddu gwybodaeth am wahanol agweddau ar fethodolegau archwilio a gweithdrefnau'r Cyngor.

- 5.32 Mae yna ystod gref o sgiliau, profiad a gwybodaeth ar draws y tîm. Mae yna ddau Gyfrifydd cymwysedig, un Archwilydd Mewnol Siartredig, dau Archwilydd Mewnol Ardystiedig ac mae'r rhan fwyaf o'r archwilwyr eraill yn Dechnegwyr Cyfrifeg cymwysedig. Mae un aelod o'r tîm yn cael ei ariannu i astudio ar gyfer cymhwyster Archwilydd Systemau Gwybodaeth Ardystiedig ISACA (CISA). Bydd datblygu arbenigwr arweiniol yn y maes hwn o fudd i'r tîm, ac yn ategu ei sylfaen sgiliau bresennol.
- 5.33 Mae ymarfer sgiliau yn cael ei gynnal yn flynyddol gan bob archwilydd fel hunanasesiad yn erbyn Fframwaith Cymwyseddau Archwilio Mewnol CIIA, sy'n cyd-fynd ag elfennau gorfodol y SAMSC, ac sy'n cynnwys asesiad manwl o ystod o rinweddau technegol ac ymddygiadol. Roedd y canlyniadau'n sail i'r broses Adolygiad Personol, ac adolygiad y Rheolwr Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (Safon 1300), lle cydnabuwyd, yn gyffredinol, linell sylfaen gref o wybodaeth a sgiliau ar draws y tîm archwilio.
- 5.34 Defnyddir meysydd o Fframwaith Cymwyseddau Proffesiynol CIIA lle mae archwilwyr yn sgorio eu hunain yn gymharol is i ddarparu hyfforddiant wedi'i dargedu. Dros y flwyddyn, darparwyd hyfforddiant mewnol i'r tîm ar 'wella ac arloesi' a ddilynodd hyfforddiant yn y flwyddyn flaenorol ar 'ymwybyddiaeth o dwyll', y 'Fframwaith Ymarfer Proffesiynol Rhyngwladol' a 'chraffter busnes'.
- 5.35 Mae darpariaethau proses Adolygiad Personol y Cyngor yn cael eu cefnogi'n llawn yn yr adran, ac maent yn rhan annatod o'r broses rheoli perfformiad, fel yr amlinellir yn yr adran ar y RhSAG a'r wybodaeth yn Atodiad C.

## Profiad a chymwysterau

- 5.36 Mae gan aelodau'r adran gymwysterau amrywiol sy'n briodol i'w gwaith, gan gynnwys CIPFA, CIIA a CTC. Mae gan y rhan fwyaf o staff y tîm Archwilio Mewnol dros 10 mlynedd o brofiad mewn archwilio.

## 6. Casgliad

- 6.1 Mae'r amgylchedd gweithredu ac argaeledd adnoddau staff wedi bod yn heriol eleni. Fodd bynnag, cafodd y sefyllfa ei rheoli'n ofalus drwy gydol y flwyddyn, gan lunio'r Cynllun Archwilio a'r ymagwedd at gyflawni i dargedu sicrwydd ar risgiau a rheolaethau allweddol, ac i ddarparu corff gwaith sicrwydd digonol i gefnogi barn flynyddol lawn ar amgylchedd rheoli'r Cyngor.

Dilynwyd ymagwedd wedi'i flaenoriaethu at archwilio systemau sylfaenol a llywodraethu corfforaethol, a gwasgariad targedig o waith sicrwydd ehangach ar draws cyfarwyddiaethau.

- 6.2 Cafodd yr holl benderfyniadau parthed y Cynllun Archwilio eu gwneud gyda sylw priodol at risg, safonau proffesiynol a chynghorion gan CIPFA, y CIIA, y Bwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol a chyngor swyddogion proffesiynol a chyfoedion.
- 6.3 Mae angen parhau i roi sylw parhaus i'r ymateb i adroddiadau archwilio ac mae argymhellion a pherfformiad wedi'u hadrodd i'r Uwch Dimau Rheoli yn rheolaidd. Mae tystiolaeth barhaus fod cleientiaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth archwilio drwy'r adborth a gafwyd. Mae canfyddiadau a safbwyntiau archwilio anffafriol yn dal i fod yn gyfyngedig i nifer fach o feysydd, ond bydd y tîm yn parhau i fod yn wylidwrus wrth symud i'r flwyddyn nesaf wrth brofi dyluniad a chymhwysiad y rheolaethau llywodraethu a'r rheolaethau sydd eu hangen i ddarparu amgylchedd rheoli cadarn.
- 6.4 Canlyniad yr asesiad ansawdd allanol, a'r hunanadolygiad blynyddol gan y Rheolwr Archwilio yw bod y gwasanaeth archwilio yn gweithredu'n unol â'r SAMSC a'r holl ofynion cysylltiedig.



## Cyflawni Archwilio 2022/23

## Allbynnau Archwilio a Gyhoeddwyd

## I. Effeithiol / Effeithiol gyda lle i wella

Tabl 13 - i. Effeithiol / Effeithiol gyda lle i wella

Barn	Maes Archwilio	Statws allbwn (os nad yw'n derfynol)
	Sylfaenol / Uchel	
Effeithiol	BT / LTLI / CGDG	
	Profion yn ystod y flwyddyn - Prynu a Thaliadau	Drafftiau wedi'u Cyhoeddi
	Rheoli Perfformiad (gan gynnwys Rheoli Gwastraff)	
	Grantiau Covid Llywodraeth Cymru - Sicrwydd (21/22)	
Effeithiol gyda lle i wella	Diogelu	
	Archwilio TGCh - Llywodraethu Seiber-Ddiogelwch	
	Caffael	
	Iechyd a diogelwch	
	Storfeydd Brindley Road	
	Trefniadau Rheoli Risg	
	Taliadau Staff Asiantaeth	
	Moeseg a Gwerthoedd	Drafftiau wedi'u Cyhoeddi
	Partneriaeth / Sicrwydd Hyd Braich	
	Iechyd a Diogelwch	
	Treth Gyngor	
	Profion yn Ystod y Flwyddyn - Cyflogres ac AD	
	Bargen Ddinesig 2021/22	
	Cwynion a Chanmol	
Incwm a Dyledwyr		

Barn	Maes Archwilio	Statws allbwn (os nad yw'n derfynol)
	Pensiynau a Buddsoddiadau	
Canolig		
Effeithiol	Cynlluniau CGI (gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf)	
	Gwasanaeth Ewch â Fi Adre	
	Rheoli Asedau Ysgol - Thematig (Albany)	Drafftiau wedi'u Cyhoeddi
Effeithiol gyda lle i wella	Maes Carafanau Caerdydd	
	Ysgol Farchogaeth Caerdydd	
	Ysgol Gynradd Glyncoed	
	Llywodraethu Contractau Hamdden	
	Contract Trin Gwastraff Organig Caerdydd	
	Cantonian	
	Dŵr Gwyn Rhyngwladol	Drafftiau wedi'u Cyhoeddi
	Llogi Sgipiau	
	Arlwyo mewn ysgolion sydd wedi Optio Allan	
	Ysgolion â Balansau Dros Ben - Thematig	
	Cartref Cŵn Caerdydd	
	Gorfodi Rheoli Gwastraff	
	Awdurdod yr Harbwr	
	Canolfan Derbyn Larymau	
	DILYNIANT - Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd	
	Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yng Nghaerdydd	
	Gwaredu Tir ac Adeiladau	
	Ysgol Uwchradd y Dwyrain	
	Ysgol Uwchradd Fitzalan	
	Ysgol Gynradd Baden Powell	

## II. Annigonol ac angen gwelliant mawr / Anfoddhaol

Tabl 14 - II. Annigonol ac angen gwelliant mawr / Anfoddhaol

	Maes Archwilio	Statws yr adroddiad (os nad yn derfynol)
Sylfaenol / Uchel		
Annigonol ac Angen Gwelliant Mawr	Cydymffurfiaeth SDD DCT y Gyfarwyddiaeth	Drafftiau wedi'u Cyhoeddi
	Amrywiadau Contract	
Canolig		
Anfoddhaol	Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog	Drafft wedi'i Gyhoeddi

## III. Archwiliadau eraill ac Archwiliadau heb farn

Tabl 15 - III. Archwiliadau eraill ac Archwiliadau heb farn

Maes Archwilio		Natur
Grantiau / Cyfrifon / Cyrff Allanol		
Cydbwyllgorau	Archifau Morgannwg	Datganiad Cyfrifon Adolygiadau / Ardystiad
	Prosiect Gwyrdd	
	Iechyd Porthladd	
Grant Gwella Addysg 2021/22		
Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwys Norwyaidd 2021/22		
Dim Barn – Ymgysylltiadau Archwilio		
Menter Twyll Genedlaethol		Paru Data
Ymgynghoriaeth Gwasanaeth / Prosesau		Ymgynghoriaeth
HRhR - Prynu a Thaliadau		HRhR
CRSA - Cyflogres ac Adnoddau Dynol		

## Statws Adroddiadau Archwilio Eraill

IV. Archwiliadau a Gynlluniwyd ar gyfer 2022/23 a gafodd eu gohirio tan 2023/24 neu eu canslo

Tabl 16 - IV. Archwiliadau a Gynlluniwyd ar gyfer 2022/23 a gafodd eu gohirio tan 2023/24 neu eu canslo

Archwilio	
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2021/22	Gwaith maes yn parhau
Dyraniadau, gosodiadau a lleoedd gwag	Dygwyd Ymlaen i'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2023/24
Arlwyo di-arian parod mewn ysgolion uwchradd	
Gwastraff Masnachol	
Diogelwch Cymunedol	
Archwiliad Crud i'r Bedd	
Dirprwyo a gwneud penderfyniadau	
Taliadau Uniongyrchol - Plant ac Oedolion	
Rheoli Perfformiad Cyfarwyddiaeth – (Archwiliadau Thematig) *7	
Addysg - CTY	
Gwasanaethau Etholiadol	
Tîm Dyletswydd Argyfwng	
Trefniadau Llywodraethu	
Cynnal a Chadw Priffyrdd	
Gofal Cartref	
Hybiau	
Yswiriant	
Pridiannau Tir	
Gwasanaethau Dydd Iechyd Meddwl	
Milltiredd a Chynhaliaeth	
Cynllunio	
Archwiliadau ysgolion cynradd *4	
Rhaglenni a Phrosiectau	
Cardiau Prynu	
Gofal Preswyl	
Derbyn i Ysgolion	
Rheoli Gwybodaeth Ysgolion	
Sicrwydd TAW Ysgolion	
Archwiliadau ysgol uwchradd *2	

<b>Archwilio</b>	
Glanhau Strydoedd	
Trethiant	
Cofnodi Amser	
Gwerth am arian wrth ddefnyddio Cerbydau Cyngor	
Gwerth am arian yn y defnydd o oramser	
Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid	
Prosesau Incwm Gwasanaethau Oedolion	Ddim wedi'i gynnwys ar Archwiliad Drafft Cynllun 2023/24
Cartref Plant Crosslands	
Byw'n Annibynnol	
Neuadd Dewi Sant	
Grantiau Covid Llywodraeth Cymru - Sicrwydd	

## Meysydd Gwaith lle na pharatoir Allbwn Archwilio Safonol

Mae'n bwysig deall na fydd gan lawer o waith a wneir o fewn yr Archwiliad gynllun gweithredu / adroddiad safonol fel canlyniad. Nid yw'r rhestr ganlynol yn hollgynhwysol, ond mae'n dangos rhai meysydd lle mae amser wedi'i dreulio ac adnoddau archwilio wedi'u defnyddio yn ystod y flwyddyn heb gynhyrchu allbwn o reidrydd.

Tabl 17 - Meysydd Gwaith lle na pharatoir Allbwn Archwilio Safonol

Maes Gwaith	Manylion Cryno Cyfraniad Archwilio
Effeithlonrwydd / Newid ac ymgynghoriaeth prosiect neu broses arall	Gwaith sy'n rhoi cyngor ac arweiniad i nifer o raglenni a phrosiectau neu fentrau. Mae Uwch Aelodau'r Tîm Archwilio yn mynychu cyfarfodydd a gweithgorau i gyfrannu at asesiadau risg a datblygiadau system, yn enwedig lle mae prosesau ariannol yn rhan o hyn.
Caffael a Gwario	Mae archwilwyr yn ymwneud â materion caffael, yn mynychu gweithgorau ac yn rhoi mewnbwn ar reoli risg a rheolaethau.
Ardystio Grantiau / Cyfrifon	Ardystiad annibynnol o hawliadau a chyfrifon grant.
Ceisiadau ad hoc	Ymholiadau ac aseiniadau.
Ysgolion - Cyffredinol	Mae ymgysylltu parhaus a rheolaidd, a chefnogaeth i ysgolion. Cwblheir ymarferion HRhRau gyda phob ysgol o bryd i'w gilydd yn ogystal ag adolygiadau archwilio ysgolion targedig. Mae uwch aelod o'r tîm archwilio yn mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd 'ysgolion sy'n peri pryder'.
Cyfarwyddiaethau - cyffredinol	Darperir cyngor, arweiniad a hyfforddiant i gyfarwyddiaethau ar bynciau fel systemau a rheolau caffael, AD a systemau Cyflogres a chyfrifon imprest. Gall swyddogion hefyd fod yn aelodau gweithgar o grwpiau adolygu gwasanaethau, byrddau gweithredu ac ati.
Rheolau a Rheoliadau	Cyngor ac arweiniad a rhannu arfer gorau mewn sawl maes. Gwaith cyffredinol yn ymwneud â llywodraethu.
Cleientiaid Allanol	Archwilio risgiau, systemau a gweithdrefnau cleientiaid (yn unol â'r Cylch Gorchwyl). Archwilio Cyfrifon. Darparu cyngor oherwydd gwybodaeth am reoli risg a rheolaethau.
Cyfrifon Imprest (Arian Mân)	Cyngor, arweiniad, hyfforddiant a chynorthwyo gyda'r broses gysoni.
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Cyngor, adrodd a chymorth – gan gynnwys hyfforddiant sefydlu, cynllunio gwaith.

## Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella - Dull Gweithredol

Mae'r RhSAG yn seiliedig ar ddull rheoli perfformiad, sy'n cynnwys 'pennu disgwyliadau', 'adolygu perfformiad', ac 'adrodd ar berfformiad' ar lefelau archwilydd unigol a thîm. Crynhoir y camau rheoli hyn fel a ganlyn.


Tabl 18 - Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella - Dull Gweithredol

<p>1. Gosod disgwyliadau - Gyda disgwyliadau clir ar waith, gall archwilwyr ganolbwyntio ar gyflawni.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Dyraniad Archwilio - Mae gan bob archwilydd ddyraniad chwarterol o waith, sy'n heriol ond yn gyraeddadwy. Mae archwilwyr yn gyfrifol am gyflawni eu dyraniad yn effeithiol ac yn brydlon.</li> <li>✓ Cwmpasu ac Amcanion – Mae gan bob archwilydd amcanion clir a ddogfennir ar gyfer pob ymgysylltiad archwilio y mae'n gyfrifol am ei gyflawni.</li> <li>✓ Adolygiad Byr - Pan ddefnyddir hanner yr amser archwilio, mae uwch aelod o'r tîm yn cwblhau adolygiad byr a chryno o gynnydd yn erbyn amcanion yr archwiliad. Gall hyn naill ai arwain at sicrwydd bod yr archwiliad yn cael ei gyflawni'n effeithiol, neu at ail-bennu disgwyliadau, gyda champau'n cael eu datblygu i'r archwilydd gwblhau ymgysylltiad archwilio o ansawdd uchel yn brydlon.</li> <li>✓ Adolygiadau Personol – Bob blwyddyn sefydlir nodau ac amcanion cyflawni, hyfforddi a datblygu ar gyfer pob archwilydd, gan gydnabod y sgiliau unigol a chyfunol sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun ar sail risg yn effeithiol yn y tymor presennol a'r tymor canolog.</li> </ul>
<p>2. Adolygu Perfformiad - Ailedrychir ar y disgwyliadau mewn adolygiadau sicrwydd ansawdd a rheoli.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Monitro - Mae pob archwilydd yn mynychu cyfarfod monitro misol, lle caiff ei 'Ddyraniad Archwilio' ei adolygu a materion eu nodi a'u datrys.</li> <li>✓ Adolygiad Sicrwydd Ansawdd - Mae pob archwiliad yn destun adolygiad sicrwydd ansawdd gan aelod o'r tîm rheoli archwilio, er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel yn unol â'r Cod Moeseg a'r Safonau. Mae'r adolygiad yn ystyried ansawdd y dystiolaeth i gefnogi'r 'Amcanion' archwilio, a chyflawni camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliad 'Byr'.</li> <li>✓ Asesiad Ôl-Archwilio – Ar ôl i bob archwiliad ddod i ben, mae'r archwilydd, ac uwch aelod o'r tîm, yn adolygu perfformiad yr archwilydd yn erbyn rhinweddau technegol ac ymddygiadol arfer gorau. Defnyddir arolwg boddhad cleientiaid hefyd i nodi'r broses archwilio a'r gwerth o safbwynt y cleient. Caiff unrhyw anghenion datblygu eu nodi a'u datblygu.</li> <li>✓ Adolygiad Personol Bob Chwe Mis – Mesurir cynnydd yn erbyn yr amcanion a'r targedau yn 'Adolygiad Personol' pob Archwilydd, gan ystyried canfyddiadau a chanlyniadau'r gweithgareddau yn y cam rheoli 'Adolygu Perfformiad'. Gall arwain at amcanion, targedau a chefnogaeth newydd.</li> </ul>
<p>3. Adrodd ar Berfformiad - Defnyddir ystod o fesurau perfformiad ar gyfer adrodd ac adolygu.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Mae mesurau perfformiad craidd yn ymwneud â'r archwiliadau a gyflwynir yn brydlon, boddhad cleientiaid, argymhellion y cytunwyd arnynt/a weithredwyd, cynhyrchiant a chyflawni amcanion personol.</li> <li>○ Mae gwybodaeth am berfformiad yn cael ei monitro'n rheolaidd gan y Rheolwr Archwilio ac fe'i hystyrir gan y Tîm Rheoli Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter.</li> <li>○ Yn flynyddol, mae'r Rheolwr Archwilio yn adolygu ac yn adrodd ar gymhwysiad a chanfyddiadau'r Fframwaith Rheoli Perfformiad sy'n sail i'r RhSAG i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae asesiad allanol o gydymffurfiaid â'r SAMSC yn cael ei gwblhau a'i adrodd o leiaf bob pum mlynedd.</li> </ul>

# Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella - Dull Gweithredu (Diagram)

'Canolbwyntio ar Allbwn, Rheoli Ansawdd'

Ffigur 1 - Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella - Dull Gweithredu (Diagram)



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English